Cofnodion Cyfarfod 8 Ebrill 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)
Lena Ashley (LA)	Siân Gwenllïan (SG)
Iestyn Harris (IH)	Pat Jones (PT)
George Smith (GS)	Nerys John (NJ)
Sarah Riley (SR)	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	

1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
	Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod drwy groesau'r aelodau a diolch i'r Cynghorydd Iestyn Harris am gymryd y ddau gyfarfod blaenorol oherwydd ei absenoldeb. **Ymddiheuriadau**: Bethan Jones, Louise Hughes, Gwyneth Williams	
1.1	Cynnig ar gyfer Cynhadledd Unllais - gweler atodlen A. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd cefnogi'r cynnig. **Y Clerc i anfon ymlaen y cynnig at Unllais Cymru.**	**CLERC**
1.2	Adroddiad y Cynghorydd Sir – gweler atodiad B. Yn ychwanegol i'r eitemau ar yr adroddiad fe drafodwyd y canlynol. **Refferendwm** - mae modd i Gyngor Gwynedd ar ran y Cyngor Cymuned gynnal refferendwm ar ymgyrch lleol er mwyn dod i wybod am farn y gymuned. Roedd y Cyngor o farn bod hyn yn iawn mewn egwyddor ond bod angen fwy o drafodaeth. Penderfynwyd y byddai'r eitem yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mai. **Maes Parcio Neuadd yr Eglwys** – dywedodd y Cynghorydd od modd trafod y mater hwn unwaith y rhagor a byddai yn trefnu i gysylltu ar Deon Bro. Glan y Môr – Cynhaliwyd drafodaeth ynglŷn â'r ffordd gorau i ddatbygu yr ardal ar Ffordd Glan y Môr. Cynnigwyd bod syniadau yn cael eu gofyn oddi wrth myfyrwyr Peirianneg Sifil Coleg Menai a gosod arddangosfa yn ystod Gŵyl y Felin. **Y Clerc i gysylltu a Coleg Menai.** **Cylfat Ffordd Llwyn** - angen ei lanhau Gadawodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan y cyfarfod wedi'r eitemau hyn.	**SG** **CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**COFNODION**	
	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol mis Mawrth. Roedd y Cyngor yn awyddus i eitem am y ceisiadau cynllunio gael eu newid. Y Cofnodion i'w cyflwyno am gadarnhad yn y cyfarfod nesaf.	**CLERC**
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Llwybr 21** - (Cefnau Tai) - cyflwynodd y Clerc adroddiad byr ynglŷn â'r mater a bod y bod Cyngor Gwynedd am	

	wneud ymholiadau a'r Gofrestr Tiroedd i ddarganfod os oes unrhyw dystiolaetho bwy oedd perchen tir y llwybr. Roedd hyn o ganlyniad derbyn copi o hen lythyr dyddiedig 7 Tachwedd 2000 Watkin Jones at Adran Gynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd yn datgan nad oeddynt yn berchen ar y tir. Yr unig gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd oedd sicrhau bod cyflwr y llwybr yn addas ar gyfer cerddwyr yn unig. **Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn cael cyngor ar fath o ymateb dylai ei anfon at drigolion Stryd Bangor oedd wedi dod a'r mater i sylw'r Cyngor Cymuned.**	**CLERC**
4.2	**Baw Cŵn** - dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn sylwadau Cyngor Gwynedd ar y mater. Mae Y Felinheli gyda nifer o finiau baw cŵn ac ni fydd mwy yn cael eu codi, hefyd mae modd i bobl ddefnyddio biniau cyffredin ar gyfer y baw cŵn os ydyw wedi ei roi mewn bag a hwnnw wedi ei gau.	
4.3	**Bont ar draws y Lon Las** - roedd Cyngor Gwynedd wedi cau'r Lon Las am dro i ymdrin â'r bont. Bellach mae'r ffordd wedi ei hagor.	
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
	Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Daniel Williams ac Iestyn Harris am eu gwaith ynglŷn â llawr y neuadd. Rhoddodd y Cynghorydd Daniel Williams eglurhad manwl ar y broblem ar lawr a hefyd y ffordd ymlaen sut i ddatrys y problemau. Dywedodd ei fod am ofyn am bris i'r Adeiladydd Islwyn Owen ynglŷn â gosod fent. Mae rhai o'r llechi ar dalcen y Neuadd wedi dod yn rhydd a bydd angen sgaffold i gwblhau y gwaith. Mae prisiau am y gwaith wedi ei gwahodd.	**DW**
6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
	Cadarnhawyd gwariant mis Mawrth. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol hefyd fantolen brawf estynedig er sylw'r Cyngor .	
7.0	**GOHEBIAETH**	
	Tregwylan Management Ltd. - Derbyniwyd drwy law Siân Gwenllïan y Cynghorydd Sir. Roedd y llythyr yn datgan sylwadau Tregwylan am yr hawl Gynllunio ar y bwyty yn y Marina. Trafodwyd y mater a phenderfynu anfon atynt i ddweud bod y Cyngor Cymuned yn trafod ceisiadau yn y cyfarfod misol a byddai yn croesawu derbyn eu sylwadau i'w hystyried i geisiadau'r dyfodol.	**CLERC**
	Tregwylan Management Ltd. - Derbyniwyd drwy law Siân Gwenllïan y Cynghorydd Sir. Derbyniwyd y sylwadau er gwybodaeth ar y mater o'r Apêl i'r Cais rhan ôl-weithredol i gadw hysbyseb presennol ynghyd a chodi strwythur to bwriadedig uwchben yr hysbyseb. (C13/1295/20/HY)	
8.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
	Cafwyd adroddiad manwl ynglŷn â chyflwr y cloc gan y Cynghorydd Daniel Williams. Dywedodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Patrick Stirrs ac wedi cael gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith oedd ei angen i'r cloc. Byddai'r gwaith yn costio oddeutu£2,000 yn cynnwys cost sgaffald. Dywedodd	

	y Cynghorydd hefyd bod modd derbyn cymorth ariannol oddi wrth y War Memorial Fund ond bod angen cofrestru'r cloc. Roedd wedi bod mewn cysylltiad ag Ann Thomas o Cadw ynglŷn â chymorth ariannol newydd sydd i'w gael. Byddai hefyd yn cysylltu â Swyddog Cadwraeth Gwynedd Rowena Mair er mwyn derbyn fwy o gyngor. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn adrodd yn ôl i'r Cyngor pan fydd gyda mwy o wybodaeth i'r hysbysu.	**DW**
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	C14/0211/20LL – Newid defnydd swyddfa bresennol i ddefnydd trin gwallt (A1) Hen Ysgol Aberpwll Y Felinheli LL56 4JS. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.2	C13/1295/20/HY – Cais rhan ol-weithredol i gadw hysbyseb presennol ynghyd a chodi strwythur to bwriadedig uwchben yr hysbyseb- Tir ger mynedfa Port Dinorwic Marina Y Felinheli Gwynedd. – **GWRTHWYNEBIAD YN PARHAU**. Y Clerc i anfon i ddatgan hyn.	**CLERC**
10.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Y Cadeirydd yn datgan bod y gwair wedi derbyn y toriad cyntaf a bod y gwair yn parhau i fod yn iawn ar gyfer Sul y Blodau. Mae angen gosod Mainc er cof am Pat White yn gadarn yn ei safle ac yna gall plac gael ei osod. Bydd y Cynghorydd KB yn cael y mesuriadau'r fainc er mwyn cael plac. Mae trafferthion wedi codi gyda'r pridd gan fod pobl yn gadael hen flodau a photeli dwr ar ei ben. Aelodau o'r Cyngor am drefnu bod y pridd yn cael ei ail leoli.	**KB**
11/0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Rhoddwyd adroddiad byr ar y Maes Parcio gan y Cadeirydd a dywedodd byddai'r mater o'r bolard yn derbyn sylw wedi ymweliad safle oddi wrtho ef a'r Cynghorydd Daniel Williams.	**DW, KB**
12.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
	Materion wedi eu trafod yn flaenorol.	
13.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Y mater hwn wedi ei drafod fel yr eitem gyntaf ar yr agenda gan fod y Cynghorydd Sir angen gadael i fod yn bresennol mewn cyfarfod arall.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dywedodd y Cynghorydd Daniel William ei fod wedi sgwrsio a busnesau ar Ffordd Glan y Môr ynglyn a'r cynllun a bod dau yn barod iw helpu.	
15.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:30 yn yr hwyr.	

Llofnod:	Dyddiad:

ATODIAD A

Notice of Motion by Cllr Sian Gwenllian

NATIONAL GRID

Felinheli community council resolves to send a motion to the Unllais Annual Meeting with the following wording:

That One Voice condemns the National Grid's unfair consultation practice when 'consulting' on only one transmission option instead of conducting open and transparent consultations on all transmission options and providing the total costs for each option, direct and indirect.

Reason: max 150 words

With Wales, already a net exporter of energy, targeted for new-generation large-scale energy generation projects, transmission is becoming a strategic issue for Wales and One Voice members (in Gwynedd, Anglesey, Powys, Carmarthen to mention a few). As with our transport links, transmission routes are planned from the west to the populous areas in the east, predominantly over the border. Local consultation is obligatory for these planned developments but the National Grid is undermining communities' rights to fair consultations by providing only their preferred option for consultation, namely pylons, without including the options of subsea or underground cable in the consultation reply form. Furthermore semantics is used to mislead the public on the 'cost' since the indirect cost of pylons is significantly higher than say subsea cables when community impact of this visually intrusive transmission method is assessed, i.e. cost impact on tourism, agriculture, SMEs as well as valuable environmental assets.

ATODIAD B

Adroddiad Ebrill 2014

1)Ffens rownd y cae chware ar Lan y Môr: mae'r gwaith yma wedi bod yn mynd mlaen wythnos yma. Tra'n cytuno efo'r angen am ffens mae'n siomedig na chafodd y cyngor cymuned, y trigolion lleol na minnau gyfle i drafod y math o ffens sydd yn cael ei chodi. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymddiheuro ac wedi addo trafod efo ni ar ôl gorffen y gwaith i weld os oes modd ymateb i sylwadau y trigolion lleol.

2)Lon Las Menai ger Cerrig yr Afon: daeth y newyddion fod Cyngor Gwynedd wedi gorfod cau y llwybr tra fod gwaith trwsio yn digwydd i'r bont uwchben y Lon Las.

3)Llwybr yr Arfordir dryw'r marina a Faenol: Mae cyfreithwyr Cyngor Gwynedd wedi gwneud gorchymyn creu llwybr cyhoeddus newydd o dan y Ddeddf Priffyrdd yn Glan y Mor Lodge. Pwrpas y darn yma o lwybr yw cysylltu efo llwybrau cyhoeddus eraill sydd yn cael eu creu yn Ffordd Heulyn a Stad Y Faenol drwy gytundeb â pherchnogion y tir. Mae'r gwaith cyfreithiol yn mynd mlaen. Mae'r Cyngor Cymuned wedi anfon gwrthwynebiad i'r cais i godi modurdy yma rhag ofn ei fod yn peryglu creu Llwybr yr Arfordir.

4)Mae Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cais i drosi'r Half Way yn 6 uned (C14/0042/20/LL) . Roedd hyn ar sail nad oedd wedi ei farchnata fel busnes am 12 mis ac nad oedd asesiadau iaith, cymuned a thai fforddiadwy i law. Gallwch weld y cynlluniau ar www.gwynedd.gov.uk/cynllunio

5)Llifogydd: Rwyf wedi cyfarfod peirianwyr o Gyngor Gwynedd i drafod pa gamau ellir eu cymryd i atal llifogydd yn ardal Lan y Mor i'r dyfodol. Mae cynllun i'w gyflwyno i'r cyngor cymuned am ei sylwadau.

6)Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn Y Felinheli: mae grŵp o bobl leol yn cydweithio efo Hunaniaith (Menter Iaith Cyngor Gwynedd) i greu cynllun yn sgil y cwymp o 8% mewn siaradwyr Cymraeg yn y pentref. Bydd y pwyslais ar gryfhau'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ac mae trafodaethau ar y gweill i gynnal gig yn yr haf.

9)Gwrthodwyd y cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer arwydd ar y llain tir gyferbyn a'r Half Way. Deallir fod apêl wedi ei gyflwyno. Cais Cynllunio C13/1295/20/HY

10)Llwybr Stepiau Cei: mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn monitro'r wal ac mae'r llwybr yn dal ar gau ond fe ddisgwylir penderfyniad cyn hir allai arwain at ail-agor y llwybr. Deallir fod Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno llythyrau i berchnogion tir yn ymwneud a'r wal/tirlithriad uwchben Hen Gei Llechi. Mae'r Aelod Seneddol, Hywel Williams, yn dal i bwyso am gael datrys y problemau yn y rhan yma o'r pentref.

11)Cafodd cais i drosi'r swyddfeydd yn fwyty a chaffi yn y Doc ei basio yn unfrydol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ym mis Mawrth. Deallir mai'r bwriad yw agor y caffi erbyn y Pasg.

12)Mae gwefan www.felinheli.org yn parhau i fod yn boblogaidd efo 49,832 hits yn mis Mawrth. Cofiwch anfon eich lluniau a newyddion am ddigwyddiadau i post@felinheli.org.

13)Mae'r arwyddion newydd wedi eu codi yn Aberpwll o'r diwedd. Cofiwch mai 40 mph yw'r cyflymder uchaf rhwng y cae pêl-droed a gwaelod Nant y Garth.

14)Efallai bydd rhai ohonoch wedi darllen fy mod yn sefyll lawr o Gabinet Cyngor Gwynedd o Fai 1 ymlaen. Ond fydd dim yn newid o safbwynt fy ngwaith fel aelod lleol yn Y Felinheli. Cofiwch gysylltu os ydych am drafod unrhyw fater yn ymwneud a'r pentref.

15)Ffordd Osgoi Bontnewydd/Caernarfon: Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fod y gwaith o benodi cwmni i adeiladu'r ffordd osgoi gwerth £100m A487 Caernarfon i Bontnewydd wedi cychwyn. Penodwyd EC Harris fel yr asiant ac mae'r tendr ar gyfer y gwaith wedi ei gyhoeddi.